# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 13 Chwefror, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson (Cadeirydd); Cynghorydd S.J. Haines (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, E. Goodjohn, H.C. Hamilton, S.M. Hanks, K.P. Mahoney, S.D. Perkes, J. Protheroe a N.C. Thomas..

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

713 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

714 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd, 2022 fel cofnod cywir.

715 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

716 ADRAN 6 O FESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2011 – AMSERIAD CYFARFODYDD CYNGOR (PGD) –

Wrth gyflwyno'r adroddiad fe wnaeth y Prif Swyddog Craffu a Gwasanaethau Democrataidd wrth gyfeirio at y Canllawiau Statudol dan Adran 6 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Y Mesur) gynghori bod rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau o ran yr amseroedd a'r ysbeidiau lle cynhelir cyfarfodydd awdurdod lleol. Atgynhyrchwyd copi o'r canllawiau statudol yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd, 2022 roedd y Pwyllgor wedi cytuno ar y cwestiynau o fewn arolwg drafft i'w ddosbarthu i Aelodau Etholedig y Cyngor. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng 23 Rhagfyr, 2022 a 14 Ionawr, 2023. Roedd copi o

ganfyddiadau'r arolwg ynghlwm wrth Atodiad 2 i'r adroddiad, nodwyd bod 22 o 54 o Gynghorwyr yr awdurdod (41%) wedi cwblhau'r arolwg.

Roedd paragraffau 2.4 i 2.7 o'r adroddiad eglurhaol yn rhoi rhagflas o ddadansoddi rhai o'r ymatebion i'r cwestiynau. O'r 22 ymateb, fel y nodir ym mharagraff 2.4, mae 91% (20) o'r ymatebion i'r cwestiwn 'Ydy'r trefniadau ar gyfer amserlen bresennol y cyfarfodydd yn foddhaol i chi?' wedi ymateb yn gadarnhaol, gyda 9% (2) yn ymateb yn negyddol.

O ran cwestiwn 3, 'Oes diwrnod o'r wythnos y byddech chi'n ei chael hi'n anodd mynychu cyfarfod?' Roedd mwyafrif yr 19 ymateb a gafwyd yn dangos eu bod yn ystyried bod yr amserlen bresennol yn gweithio'n dda. O ran cwestiwn 6 ar amseru cyfarfodydd, derbyniwyd bod y mwyafrif o'r ymatebion yn nodi dewis y trefniadau presennol.

Roedd cwestiwn 8 yn ymdrin â'r posibilrwydd o amrywio neu gylchdroi amser cychwyn cyfarfodydd gydag 82% o'r ymatebwyr yn nodi nad oeddent o'r farn y byddai amrywio neu gylchdroi'r amseroedd cychwyn yn fanteisiol. Eto, gydag ymatebion i gwestiwn 10 'Ydych chi'n ystyried y dylai cyfarfodydd gael hyd cyfarfod penodol?', roedd yr ymateb yn amrywio, ond ar y cyfan, y mwyafrif o ymatebion oedd yn ffafrio 2 neu 3 awr.

Wrth ystyried yr ymatebion i gwestiwn 13, 'Allech chi nodi eich dewis o ran ar ba fformat y dylid cynnal cyfarfodydd y Cyngor naill ai trwy ddulliau hybrid neu o bell?' nodwyd bod y mwyafrif o'r ymatebwyr wedi mynegi ffafriaeth ar gyfer cyfarfodydd hybrid. Dywedodd Prif Swyddog Craffu a Gwasanaethau Democrataidd ymhellach wrth y Pwyllgor y byddai canfyddiadau'r arolwg hefyd yn llywio'r adolygiad 12 mis arfaethedig o Bolisi Cyfarfodydd Aml-Leoliad y Cyngor a fyddai'n cael ei gynnal yn y dyfodol agos.

Wrth ystyried yr adroddiad, er bod rhai Aelodau o'r farn bod 22 allan o 54 ymateb yn siomedig, derbyniwyd bod cyfradd ymateb o 41% i arolwg wedi ei derbyn i fod yn gyfradd ymateb boddhaol. Mynegodd y Cynghorydd Hanks ei barn, o ran yr Aelodau hynny nad oedd wedi ymateb i'r arolwg, y gellid ei ddehongli fel nad ydynt ar y cyfan yn fodlon â'r trefniadau presennol ar gyfer cynnal cyfarfodydd y Cyngor. Cydnabuwyd hefyd y byddai'n anodd bodloni anghenion yr Aelodau o ystyried amgylchiadau unigol. Fodd bynnag, roedd consensws y Pwyllgor yn cydnabod y byddai cyfarfodydd sy'n dechrau am 6.00pm yn fwyaf tebygol o fod yn amser addas i'r mwyafrif o Aelodau, gan nodi bod y Cabinet i fod i ystyried Calendr arfaethedig o Gyfarfodydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig nesaf 2023/2024 yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror, 2023.

O ystyried canlyniadau'r arolwg derbyniodd y Pwyllgor fod yn well gan y mwyafrif o'r ymatebion y trefniadau presennol ar gyfer amserlennu cyfarfodydd y Cyngor gan eu bod yn gweithio'n dda.

Fe wnaeth y Cynghorydd Carroll gydnabod y gallai rhai cyfarfodydd fod angen presenoldeb wyneb yn wyneb yn yr adroddiad a thrwy esiampl tynnodd sylw at y Pwyllgor Penodi Uwch Reolwyr. Dywedodd y Cynghorydd Thomas fod rhai cyfarfodydd hefyd yn fyr iawn eu natur hefyd, e.e. y Pwyllgor Ymddeoliadau

Cynnar/Dileu Swyddi a derbynnir ar gyfer cyfarfodydd byr o'r fath, y byddai presenoldeb o bell yn unig yn cael ei ffafrio gan Aelodau'r Pwyllgor hwnnw.

Roedd y Cynghorydd Carroll wrth gyfeirio at gyfarfod hybrid y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ym mis Medi 2022, ar blatfform meddalwedd Civico nad oedd wedi bod mor llwyddiannus â'r disgwyl, yn gobeithio y byddai modd cynnal cyfarfod y Cyngor ar 6 Mawrth, 2023 yn llwyddiannus fel cyfarfod hybrid. Nododd y Rheolwr Gweithredol dros Wasanaethau Democrataidd, mewn ymateb, yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Medi 2022, fod y Cabinet wedi cymeradwyo cynnal rhaglen o brofion atchweliad o'r datrysiad hybrid Civico fel yr adroddwyd i'r Cabinet yn hwyr yn 2022. Roedd yn ymwybodol bod adroddiad yn cael ei baratoi ar hyn o bryd i'r Cabinet ei ystyried gan roi sylw i ganlyniad y profion atchweliad oedd wedi digwydd. Dywedodd y Cynghorydd Hanks hefyd y byddai hithau hefyd yn dymuno gweld cyfarfodydd hybrid yn digwydd cyn gynted â phosibl gyda mwyafrif y Pwyllgor hefyd yn dweud y byddai cyfarfodydd a gynhelir ar sail hybrid yn fwyaf manteisiol gan y byddai'n caniatáu i'r Aelodau hynny sy'n methu â mynychu'n gorfforol yn y Swyddfeydd Dinesig allu mynychu o bell.

Wrth sôn am yr ymatebion a dderbyniwyd i gwestiwn 10 ynglŷn â faint o amser y dylai'r cyfarfodydd ei gymryd, cydnabuwyd y dylai cyfarfod gymryd cyhyd ag y bo'r angen. Fodd bynnag, nodwyd bod cyfrifoldeb hefyd ar Gadeiryddion y Pwyllgorau yn gyffredinol i reoli'r cyfarfod a bod gan bob un y disgresiwn i gynllunio busnes agenda i gael ei drafod yn y modd mwyaf priodol, a oedd yn cynnwys rheoli adroddiadau pwyllgorau o flaen llaw cyn cynnal y cyfarfodydd, yng nghynadleddau agenda'r Cadeiryddion gyda swyddogion.

Roedd holl aelodau'r Pwyllgor yn cytuno â'r awgrym y dylid cyfyngu hyd yr amser ar gyfer sesiynau datblygu i Aelodau i gyfnod hyd at 2 awr .

Wrth grynhoi, daeth y Cadeirydd i'r casgliad ei bod, o ystyried y trafodaethau yn y cyfarfod a'r ymatebion i'r arolwg, yn amlwg i'r trefniadau presennol gael eu derbyn ac wedi hynny

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y Cabinet yn cael ei hysbysu o gynnwys yr arolwg, ac argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd bod :-

- y trefniadau presennol ar gyfer cylch/amserlen y cyfarfodydd a'r amseroedd yn aros yr un fath,

- y dylai hyd yr amser ar gyfer hyfforddiant i Aelodau fod hyd at 2 awr,

- peidio argymell un hyd amser ar gyfer pob cyfarfod, derbyn mai hawl y Cadeirydd a'r Pwyllgor fydd hyn

- o ystyried yr ymatebion i Gwestiwn 13, lle bo hynny'n briodol argymhellir bod holl gyfarfodydd y Cyngor ar sail hybrid wrth adolygu'r Polisi Aml-Leoliadau

- y rhoddir gwybod i holl aelodau'r Cyngor am y rhesymau pan fydd dyddiadau cyfarfod Pwyllgor y Cyngor ac amseroedd yn newid

(2) BOD yr adroddiad a'r atodiadau yn cael eu hanfon ymlaen at Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu a'r Grŵp Is-Gadeiryddion am eu gwybodaeth a'u hystyried.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1 a 2) O ystyried canlyniadau'r arolwg, y trafodaethau yn y cyfarfod ac wrth gydnabod bod adolygiad o bolisi Cyfarfodydd Aml-leoliadau'r Cyngor oedd i fod i gael ei gynnal.